# POLISI IAITH GYMRAEG

# 2024-2026

# CYNNWYS


| Adran | Rhif Tudalen | Rhif Paragraff |
|---|---|---|
| 1 Cyflwyniad | 3 | 1.1-1.3 |
| 2 Cyd-destun | 3-4 | 2.1-2.5 |
| 3 Statws | 4 | 3.1 |
| 4 Polisi | 4 | 4.1 – 4.2 |
| 5 Gweithdrefn | 4-8 | 5.1 – 5.4 |
| 6 Monitro | 8 | 6.1 – 6.2 |
| 7 Adolygu | 8 | 7.1-7.2 |

## 1 CYFLWYNIAD

**1.1** Coleg Castell-nedd Port Talbot yw Prif Ddarparwr grŵp o ddarparwyr hyfforddiant a gasglwyd at ei gilydd at ddibenion darparu addysg a hyfforddiant o dan Gontract Prentisiaeth Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) Llywodraeth Cymru.

**1.2** Gelwir y Bartneriaeth Dysgu Seiliedig ar Waith hon ar y cyd yn Academi Sgiliau Cymru (ASC).

**1.3** Nid yw’n fwriad i'r Polisi hwn ddisodli unrhyw bolisïau sydd gan Is-gontractwyr sy'n gweithio o dan y Contract hwn, ond bydd yn cyd-fynd â hwy.

## 2 CYD-DESTUN

**2.1** Mae'r 'Polisi Iaith Gymraeg' hwn yn disgrifio sut bydd Partneriaeth DSW Academi Sgiliau Cymru (ASC) yn sicrhau cydymffurfiaeth statudol â 'Safonau' Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

**2.2** Mae'r Polisi hwn yn cynrychioli sefydliadau partner ASC ac is-gontractwyr sy'n ymwneud â chyflwyno darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith ar gontract i Goleg Castell-nedd Port Talbot a bydd yn cyd-fynd ag unrhyw bolisïau sydd gan bartneriaid ac is-gontractwyr yn eu lle yn eu sefydliadau eu hunain.

**2.3** Mae Partneriaeth Academi Sgiliau Cymru yn cynnwys ystod amrywiol o sefydliadau, gan gynnwys y sector cyhoeddus, awdurdodau lleol, sefydliadau nid-er-elw a chwmnïau preifat. Bydd Coleg Castell-nedd Port Talbot, fel Arweinydd Academi Sgiliau Cymru, yn ceisio darbwyllo holl aelodau'r bartneriaeth i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg cystal â phosibl. Cydnabyddir na fydd yn bosibl i rai darparwyr preifat llai gydymffurfio â'r holl Safonau.

**2.4** Cyflwynwyd y cysyniad o ‘Safonau’ Iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru fel rhan greiddiol o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae’r Safonau’n sefydlu hawliau cyfartal i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg, yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

- ‘Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg’.
- ‘Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny’.

**2.5** Yn unol â Chynllun Gweithredu Dwyieithog ASC, bydd cydymffurfiaeth statudol yn darparu llinell sylfaen i bob Partner ac is-gontractwr yn ASC sicrhau y bydd y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir yn cynnig yr un ansawdd a hygyrchedd â’r gwasanaeth Saesneg a ddarperir:

- Bod yn ddarparwr sy’n hyrwyddo dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- Cynyddu’n raddol faint o ddysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog sydd ar gael i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru;
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymhlith myfyrwyr a staff

a sefydlu ethos Cymreig ym mhob un o Leoliadau Hyfforddi ASC yng Nghymru;
- Datblygu gallu a sgiliau staff Addysgu i gyflawni'r cynnydd sydd wedi'i gynllunio mewn cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## 3 STATWS

**3.1** Cytunwyd ar y polisi hwn gan Fwrdd Gweithredol Academi Sgiliau Cymru ar 11eg Gorffennaf 2024.

## 4 POLISI

**4.1** Mae'r Polisi wedi'i gynllunio'n bennaf i sicrhau cydymffurfiaeth statudol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru – **Atodiad i: Hysbysiad Cydymffurfio Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** - er mwyn:

- darparu mwy o wasanaethau o ansawdd uchel, ar lafar ac yn ysgrifenedig, drwy gyfrwng y Gymraeg;
- darparu ystod ehangach o wasanaethau iaith Gymraeg;
- darparu mecanwaith ar gyfer sefydlu ein sefyllfa bresennol, er mwyn ein galluogi i bennu targedau ac adrodd ar berfformiad yn y dyfodol;
- nodi ein buddsoddiad mewn datblygu sgiliau iaith Gymraeg;
- hysbysu ein rhanddeiliaid, gan gynnwys staff a'r cyhoedd, am y polisi.

**4.2** Mae'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb yn rhan o'n hymrwymiad ehangach i gyfle cyfartal i bob myfyriwr ac aelod o staff a pharchu'r amrywiaeth gyfoethog sy'n amlygu ei hun yn y gymuned y mae sefydliadau Partner ac is-gontractwyr Academi Sgiliau Cymru yn ei gwasanaethu, gan gynnwys:

- cryfhau ymrwymiad y Bartneriaeth i egwyddor ac arfer triniaeth gyfartal mewn perthynas â'r Saesneg a'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru;
- creu amgylchedd cefnogol sy'n annog myfyrwyr, staff ac aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn weithredol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth;
- codi ymwybyddiaeth a sicrhau bod siaradwyr di-Gymraeg yn cael eu cyflwyno i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, a'u hannog i ymwneud â hwy.

## 5 GWEITHDREFN

**5.1** Bydd y Polisi'n cael ei weithredu'n bennaf drwy gyfrwng y canlynol:

- protocolau i sicrhau cydymffurfiaeth statudol, tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â safonau darparu gwasanaethau penodol, safonau llunio polisïau, safonau gweithredol, safonau cadw cofnodion a safonau sy'n ymwneud â materion atodol;
- datblygu dull strategol o recriwtio a hyfforddi staff i gau'r bwlch sgiliau rhwng y capasiti presennol a gofynion y 'Safonau' - yn ogystal â blaenoriaethu cyflwyno opsiynau modiwlau pwnc galwedigaethol yn y dyfodol yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg i adlewyrchu meysydd pwnc blaenoriaeth Llywodraeth

## 5.2 Cydymffurfiaeth

Gellir categoreiddio cwmpas y Safonau sy’n cael sylw gan y protocolau fel a ganlyn:

### 5.2.1 Safonau Darparu Gwasanaethau

01-22: Gohebiaeth a galwadau ffôn
24-42: Cyfarfodydd a digwyddiadau
43-54: Dogfennau

55-63: Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol
64-67: Arwyddion Cyhoeddus
68-74: Gwasanaethau Derbynfa
75-84: Cyllid a Chaffael
85-93: Cyhoeddusrwydd a Hawliau Dysgwyr

### 5.2.2 Safonau Llunio Polisïau

94-104: Llunio Polisïau, Ymgynghori ac Ymchwil

### 5.2.3 Safonau Gweithredol

105-149: Polisïau AD a Mewnrwyd(i)
150-153: Arwyddion yn y Gweithle

### 5.2.4 Safonau Cadw Cofnodion

154-157: Cwynion
158-163: Cofnodion AD

### 5.2.5 Safonau’n ymdrin â Materion Atodol

164-182: Monitro ac Adrodd

## 5.3 Tryloywder ac Atebolrwydd

Mae nifer o'r Safonau Cadw Cofnodion a'r Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bartneriaeth fod â pholisi (Yr Iaith Gymraeg) yn ei le i ddarparu tryloywder ac atebolrwydd. Maent fel a ganlyn:

**5.3.1** ***Safon 105:*** *Rhaid i chi ddatblygu polisi ar ddefnyddio’r Gymraeg yn fewnol at ddiben hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r iaith a rhaid i chi gyhoeddi’r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

**5.3.2** ***Safon 132:*** *Rhaid i chi ddynodi a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cefnogi i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.*
Gellir dod o hyd i hyn ar dudalen mewnrwyd staff sefydliadau'r sector cyhoeddus.

**5.3.3** ***Safon 163:*** *Rhaid i chi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau darparu gwasanaethau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael*
*(a) ar eich gwefan, ac*
*(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

**5.3.4** ***Safon 165:*** *Rhaid i chi:*
*(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer:*
*(i) goruchwylio'r ffordd rydych yn cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy;*
*(ii) hyrwyddo'r gwasanaethau rydych yn eu cynnig yn unol â'r safonau hynny, a*
*(iii) hwyluso'r defnydd o'r gwasanaethau hynny.*
*(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan; a*
*(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y trefniadau hynny.

**5.3.5** ***Safon 167:***
*Rhaid i chi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n egluro sut rydych chi'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

**5.3.6** ***Safon 169:***
*Rhaid i chi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisïau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael:*
*(a) ar eich gwefan, ac*
*(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

**5.3.7** ***Safon 171:*** *Rhaid i chi:*
*(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r ffordd rydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisïau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy;*
*(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan; a*
*(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y trefniadau hynny.

**5.3.8** ***Safon 173:***
*Rhaid i chi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n egluro sut rydych chi'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisïau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

**5.3.9** ***Safon 175:***

*Rhaid i chi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredol y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael:*
*(a) ar eich gwefan; ac*
*(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

**5.3.10 *Safon 177:***
*Rhaid i chi:*
*(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer:*
*(i) goruchwylio'r ffordd rydych chi'n cydymffurfio â'r safonau gweithredol y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy;*
*(ii) hyrwyddo'r gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig yn unol â'r safonau hynny, a*
*(iii) hwyluso defnydd o'r gwasanaethau hynny; a*
*(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y trefniadau hynny.

**5.3.11 *Safon 179:***
*Rhaid i chi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n egluro sut rydych chi'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredol y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

**5.3.12 *Safon 181:***
*Rhaid i chi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael:*
*(a) ar eich gwefan; ac*
*(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.*
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

## 5.4 Strategaeth Sgiliau Iaith a Darpariaeth Cwricwlwm

**5.4.1** Drwy ei Gynllun Gweithredu Dwyieithog, mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan y Coleg yn cynnig yr un ansawdd a hygyrchedd â'r gwasanaeth Saesneg a ddarperir.

Er y bydd cydymffurfio statudol â Safonau'r Gymraeg yn darparu llinell sylfaen, mae'r Coleg yn cydnabod nad yw'n gallu darparu'r un gwasanaeth o ansawdd ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, bydd yn helpu i sicrhau cydraddoldeb y gwasanaeth drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Bydd y gallu yn y Gymraeg a allai fod yn ofynnol neu beidio at ddiben gwaith yn cael ei drin fel gofyniad sgiliau fel unrhyw un arall.
- Bydd aelodau o staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i gaffael a defnyddio eu sgiliau dwyieithog.

**5.4.2** Mae ASC wedi ymrwymo i flaenoriaethu cyflwyno opsiynau modiwlau cwricwlwm yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol, i adlewyrchu wyth maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru lle mae'r galw am bobl sydd â sgiliau

dwyieithog yn fwyaf tebygol o gynyddu:

**1. Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**2. Gofal Plant**
**3. Adeiladu**
**4. Amaethyddiaeth a Thir**
**5. Peirianneg**
**6. Gweinyddu Busnes a TG**
**7. Hamdden a Thwristiaeth**
**8. Astudiaethau'r Cyfryngau a'r Celfyddydau Perfformio**

Pan fydd swyddi addysgu'n dod yn wag (ym mhob un o feysydd pwnc blaenoriaeth Llywodraeth Cymru), bydd ASC yn sicrhau bod:

- o leiaf un aelod o staff yn cael ei recriwtio gyda'r gallu - neu'r potensial i allu - addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog;
- cefnogaeth datblygu staff ddigonol a mesurau eraill yn cael eu rhoi ar waith i helpu ymgeiswyr sydd â photensial i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog.

## 6 MONITRO

**6.1** Mae'r Grŵp Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am weithredu a monitro'r Polisi. Mae Uwch Gynrychiolwyr o bob sefydliad Partner ac is-gontractwr yn atebol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb ac am roi adborth ar gydymffurfiaeth yn y meysydd hynny mewn perthynas â gofynion y Cynllun.

**6.2** Gwneir staff yn ymwybodol o rwymedigaethau'r Polisi yn ystod sesiynau sefydlu staff i ddechrau ac atgyfnerthir hyn drwy roi'r Polisi ar wefan ASC.

## 7 ADOLYGU

**7.1** Bydd y Polisi'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Grŵp Ymarferyddion Dwyieithog.

**7.2** Cynhelir y dyddiad adolygu nesaf erbyn mis Gorffennaf 2026.